**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**
**(Arolygiadau Safle)**

**08 Ionawr 2024**

Yn bresennol: Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd D Clements, Cynghorydd Dr S Hancock, Mr GA Jones a'r Cynghorydd B Price.

Swyddogion yn Bresennol: Mrs S Morris, Ms K Attrill, Mrs C Llewellyn (Cofnodion) a Ms G Jones.

(Arolwg Safle: 10.45am – 11.40am)

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd S Alderman, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd M Wiggins, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

2. **Diben yr Ymweliad**
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr ymweliad y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyfarwyddo â safle'r cais a'r ardal o'i gwmpas. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael ei wneud tan i'r cais cynllunio gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

3. **NP/23/0246/FUL - Newid defnydd ardal y golff byr ac ehangu'r safle drwy gael 10 caban symudol pwrpasol hunangynhwysol / carafán a maes parcio ynghyd â gwelliannau ecolegol - Parc Carafanau a Gwersylla Tretïo, Tyddewi, Hwlfford, Sir Benfro, SA62 6DE.**
Eglurodd y swyddog cynllunio bod y cais hwn yn gofyn am estyniad i'r maes carafanau er mwyn caniatáu lleoli 10 carafán sefydlog ychwanegol a gwaith tirweddu ychwanegol. Roedd y maes carafanau a gwersylla yn rhyw 8 erw, ac ar y pryd roedd yn cynnwys 30 o garafanau sefydlog, 8 llain tymhorol ar gyfer carafanau teithiol a 47 o leiniau gwersylla ar gyfer carafanau, faniau gwersylla a phebyll. Ystyriwyd bod penderfynu ar y cais yn dibynnu ar effaith yr estyniad arfaethedig i'r safle ar rinweddau arbennig tirwedd y Parc Cenedlaethol, ac am y rheswm hwn y gofynnwyd am ymweliad safle.

Cafodd yr Aelodau olwg ar y safle, gan nodi bod y mynediad presennol i'r cae yn cael ei ailddefnyddio, a cherdded i fan uchaf y safle. Aethant ymlaen wedyn i gerdded ar hyd y llwybr cyhoeddus ar ffin ddeheuol y safle a thrwy gwmwd Tretïo, gan nodi pa mor agos yw'r safle at Gapel

sydd wedi cau. Yna cerddodd yr Aelodau am ychydig ar hyd y llwybr troed sy'n cysylltu Tretïo â Llwybr yr Arfordir, a dychwelyd i'r maes gwersylla ar hyd y ffordd sy'n rhedeg ar hyd ochr gogledd orllewinol y safle gan nodi'r ffin bresennol.

Cytunodd y Rheolwr Rheoli Datblygu i ddarganfod a oedd y coed presennol ar y safle yno oherwydd amod mewn cais blaenorol. Gofynnodd yr Aelodau hefyd i'r adroddiad i'r Pwyllgor gynnwys y pellter i lwybr yr arfordir ac a fyddai'r cais yn cael unrhyw effaith o'r llwybr hwnnw.

Gan ddiolch i bawb am eu presenoldeb, daeth y Cadeirydd â'r ymweliad safle i ben.